

# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd/ Zoom

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Medi 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/6564>

## 288

---

### Datganiad gan y Llywydd

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, penderfynodd y Llywydd bod Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A–D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Dyweddodd y Llywydd hefyd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi cael eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Cafodd y cyfarfod ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 13.32

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 14.17



Gofynnwyd cwestiynau 1–9 ac 11–12. Ni ofynnwyd cwestiwn 10. Atebwyd cwestiynau 1 a 9 gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Gwahoddodd y Llywydd Iefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### **3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyfyngiadau coronafeirws lleol ym Mwdeistref Caerffili a Rhondda Cynon Taf**

Dechreuodd yr eitem am 15.12

### **4 Cwestiynau Amserol**

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

### **5 Datganiadau 90 Eiliad**

Dechreuodd yr eitem am 16.01

Gwnaeth Jack Sargeant ddatganiad ar Ddiwrnod Atal Hunanladdiad y Byd.

Gwnaeth Helen Mary Jones ddatganiad ar 40 mlynedd o CYCA cycaonline.org sy'n darparu gwasanaethau i blant a pobl Ifanc yn Sir Gaerfyrddin.

Gwnaeth Darren Millar ddatganiad ar 80 mlynedd ers Brwydr Prydain.

Am 16.07, yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd tan 16.22.

### **6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.22

**NDM7374 [Llyr Gruffydd \(Gogledd Cymru\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â pharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac o dan Reol Sefydlog 10.5:

Yn penodi Lindsay Foyster yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o 17 Hydref 2020 tan 15 Mawrth 2023.

Noder: [Gosodwyd](#) adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Benodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Medi 2020.

[Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

## **7 Cynnig i sefydlu pwyllgor o dan Reol Sefydlog 16.3: Pwyllgor y Llywydd – TYNNWYD YN ÔL**

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

## **8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Budd-daliadau yng Nghymru – opsiynau i'w cyflawni'n well**

Dechreuodd yr eitem am 16.24

**NDM7373 [John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#)**

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Budd-daliadau yng Nghymru – opsiynau i'w cyflawni'n well', a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2019.

Noder: Gosodwyd ymatebion Llywodraeth Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar [6 Rhagfyr 2019](#) a [9 Medi 2020](#).

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

## **9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Mesurau i Atal COVID-19**

Dechreuodd yr eitem am 17.05

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7376 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)**

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymestyn y defnydd gorfodol o orchuddion wyneb i gynnwys meysydd awyr, siopau, archfarchnadoedd, canolfannau siopa, ysbytai a lleoliadau gofal iechyd eraill;

b) defnyddio cyfyngiadau coronafeirws lleol mewn ymateb i gynnydd sylweddol mewn cyfraddau heintio Covid-19 mewn modd cymesur er mwyn osgoi gosod cyfyngiadau symud llawn ar Gymru gyfan;

c) ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n dod i mewn i Gymru o dramor gael prawf Covid-19 wrth gyrraedd Maes Awyr Caerdydd.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
13	0	40	53

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)**

Dileu is-bwynt (a).

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
32	11	11	54

Derbyniwyd gwelliant 1.

**Gwelliant 2 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)**

Dileu is-bwynt (c) a rhoi yn ei le:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effeithiolrwydd mesurau i gynnwys lledaeniad COVID-19 mewn perthynas â theithio rhyngwladol hyd yma ac i weithredu unrhyw wersi a ddysgwyd.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	2	42	54

Gwrthodwyd gwelliant 2.

Gwelliant 3 [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Dileu is-bwynt (c) a rhoi yn ei le 'profi pobl sy'n dychwelyd i Gymru o wledydd nad ydynt wedi'u heithrio sydd â chyfraddau uwch o COVID-19 na Chymru, yn unol â'r cyngor cyfredol gan y Grŵp Cyngor Technegol'.

[Y Grŵp Cyngor Technegol: datganiad ar brofi teithwyr sy'n dychwelyd i Gymru o ardaloedd lle mae nifer yr achosion o'r firws yn uchel](#)

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
31	1	22	54

Derbyniwyd gwelliant 3.

Gwelliant 4 [Caroline Jones \(Gorllewin De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau llety i alluogi teithwyr a'r rhai nad oes ganddynt y cyfleusterau i fod dan gwarantyn ar eu pen eu hunain.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
13	0	41	54

Gwrthodwyd gwelliant 4.

Gwelliant 5 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud gorchuddion wyneb yn orfodol mewn ardaloedd cymunedol mewn lleoliadau addysg penodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	10	34	54

Gwrthodwyd gwelliant 5.

Gwelliant 6 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun COVID-19 newydd i Gymru i ddarparu dull cyfannol o ymdrin â'r pandemig yn ystod y cyfnod nesaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
23	0	31	54

Gwrthodwyd gwelliant 6.

Gwelliant 7 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ar frys â phroblemau yn y drefn brofi bresennol ac i weithio tuag at gyflwyno profion dyddiol torfol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
21	0	33	54

Gwrthodwyd gwelliant 7.

Gwelliant 8 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r syniad o ddefnyddio 'cyfyngiadau symud clyfar' wrth ymateb i glystyrau lleol, gan ddefnyddio cyfyngiadau mewn ardaloedd mor lleol â phosibl.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
21	0	33	54

Gwrthodwyd gwelliant 8.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM7376 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio cyfyngiadau coronafeirws lleol mewn ymateb i gynnydd sylweddol mewn cyfraddau heintio Covid-19 mewn modd cymesur er mwyn osgoi gosod cyfyngiadau symud llawn ar Gymru gyfan;

b) profi pobl sy'n dychwelyd i Gymru o wledydd nad ydynt wedi'u heithrio sydd â chyfraddau uwch o COVID-19 na Chymru, yn unol â'r cyngor cyfredol gan y Grŵp Cyngor Technegol'.

[Y Grŵp Cyngor Technegol: datganiad ar brofi teithwyr sy'n dychwelyd i Gymru o ardaloedd lle mae nifer yr achosion o'r firws yn uchel](#)

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
31	9	14	54

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Am 18.04, yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Dirprwy Lywydd tan 18.12.

## 10 Dadl Plaid Brexit – Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig

Dechreuodd yr eitem am 18.12

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7372** [Mark Reckless \(Dwyrain De Cymru\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn croesawu Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

[Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig](#) (Saesneg yn unig)

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
12	2	40	54

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1** [Neil Hamilton \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn croesawu rhai rhannau o Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sy'n dychwelyd, yn briodol, bwerau pwysig o'r UE i'r DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
2	0	52	54

Gwrthodwyd gwelliant 1.

**Gwelliant 2** [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:



Yn credu bod Bil y Farchnad Fewnol, Llywodraeth y DU gyfystyr ag ymosodiad ar y setliad datganoli a fyddai, pe bai'n cael ei ddeddfu, yn tanseilio pwerau'r Senedd i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
30	2	22	54

Derbyniwyd gwelliant 2.

Gan fod Gwelliant 2 wedi'i dderbyn, cafodd Gwelliant 3 ei ddad-ddethol

**Gwelliant 4 [Neil Hamilton \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y rhannau hynny o Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sy'n cynnig datganoli pwerau ymhellach i'r Senedd a Llywodraeth Cymru oherwydd, ar sail tystiolaeth yr 20 mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru yn debygol o'u defnyddio i gynyddu rheoleiddio, cyfyngu ar ryddid a thanseilio cystadleurwydd economi Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
2	2	50	54

Gwrthodwyd gwelliant 4.

**Gwelliant 5 [Neil Hamilton \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid dileu'r Senedd, fel rhan o gynllun ehangach i unioni canlyniadau anfoddhaol datganoli drwy, yn benodol, ddemocrateiddio'r GIG a chreu mwy o ymreolaeth leol mewn addysg, ac wrth gadw elfennau Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sy'n helpu i ddychwelyd pwerau, yn briodol, o'r UE i'r DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
2	2	50	54

Gwrthodwyd gwelliant 5.

#### Gwelliant 6 [Gareth Bennett \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu na ddylai'r pwerau a gaiff eu dychwelyd gan Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig gael eu datganoli i Gymru o ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi methu mewn perthynas â'r pwerau datganoledig presennol sydd ganddynt.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
2	2	50	54

Gwrthodwyd gwelliant 6.

#### Gwelliant 7 [Gareth Bennett \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am refferendwm cyfrwymol ynghylch a ddylid cadw neu ddiddymu llywodraeth a senedd datganoledig Cymru, yn sgil amcanion arfaethedig Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
2	2	50	54

Gwrthodwyd gwelliant 7.

#### Gwelliant 8 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio annibyniaeth er mwyn diogelu democratiaeth yng Nghymru yn sgil Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	0	44	54

Gwrthodwyd gwelliant 8.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM7372 [Mark Reckless \(Dwyrain De Cymru\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn credu bod Bil y Farchnad Fewnol, Llywodraeth y DU gyfystyr ag ymosodiad ar y setliad datganoli a fyddai, pe bai'n cael ei ddeddfu, yn tanseilio pwerau'r Senedd i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl Cymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
39	2	13	54

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.14D, am 19.16, cafodd y trafodion eu hatal dros dro er mwyn caniatáu egwyl technegol cyn y cyfnod pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 19.26

## 12 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.43

NDM7371 [David Melding \(Canol De Cymru\)](#)

Yr angen am gronfa diogelwch tân yng Nghymru i gynnig cymorth i lesddeiliaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.07

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Medi 2020